COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD IAU 7 CHWEFROR 2008 YN NHŶ CARADOG, 1-6 PLAS SAN ANDREAS, CAERDYDD CF10 3BE

Comisiwn	Ysgrifenyddiaeth
Mr D H Roberts (Cadeirydd)	Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mrs S Smith	Mr S Halsall
Y Parch. H Davies	Mr D Carr
	Grant Thornton
	John Golding
	Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru
	Richard Thomas
	Gemma Jones
	Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)
	Ann-Marie Harkin

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Claire Thomas o Grant Thornton.

1. Cofnodion y pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 15 Tachwedd 2007.

1.1 Cafodd y rhain eu cytuno a'u mabwysiadu.

2. Materion yn codi.

2.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd bod Uned Llywodraethu Corfforaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn mynd trwy'r broses o ddiwygio Datganiadau Rheoli a Memoranda Ariannol pob Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC) er mwyn adlewyrchu Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Dywedodd Mr Thomas bod Uned Llywodraethu Corfforaethol LlCC ar fin cyhoeddi arweiniad a byddent yn hysbysu pob CNLC o'r newidiadau maes o law. Disgwylir y byddai'r Gweinidog yn cytuno â Datganiadau Rheoli a Memoranda Ariannol y Comisiwn, ond gallai gynnwys newidiadau i adlewyrchu Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ogystal â'r newidiadau y cytunwyd arnynt gan yr Aelodau.

2.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai Memorandwm Cytundeb Comisiwn Ffiniau Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf a gynhelir yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

2.3 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi cysylltu â Chyngor Celfyddydau Cymru ynghylch y posibilrwydd o rannu trefniadau ariannu a chyfrifo a'i fod wedi derbyn ymateb cadarnhaol. Bwriedir trefnu cyfarfod â Chyfarwyddwr Ariannol y Cyngor yn fuan.

2.4 Dywedodd yr Ysgrifennydd fod y Dirprwy Ysgrifennydd wedi cyfarfod â phennaeth Gwasanaethau TG Merlin ynghyd â'r isadran noddi er mwyn esbonio gofynion y Comisiwn o ran trosglwyddo cyn cychwyn yr arolygon etholiadol. Er na fyddai'r Comisiwn yn un o'r isadrannau, a fyddai cael ei drosglwyddo gyntaf fel rhan o gam beilot y broses, gobeithiwyd y byddai'r profiad a gafwyd yn ystod y cam hwn, yn gymorth i drosglwyddo system y Comisiwn o ran cyflymder ac effeithlonrwydd.

3. Adolygiad Archwiliad Mewnol 2007-08: Cylch Gorchwyl.

3.1 Esboniodd Mr Thomas fod y Cylch Gorchwyl yn cynnwys pedwaredd blwyddyn o strategaeth archwilio pum mlynedd y Comisiwn. Bwriadwyd y byddai'r archwiliad yn cychwyn yn ystod trydedd wythnos mis Chwefror ac yn dilyn yr un ffurf â'r blynyddoedd cynt ac yn cynnwys rheolaeth ar lefel uchel ac yn dilyn argymhellion y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, byddai rhan sylweddol o'r archwiliad yn canolbwyntio ar weithdrefnau arolygon etholiadol er mwyn paratoi ar gyfer arolwg etholiadol y Comisiwn dros Gymru gyfan sydd i ddod. Nododd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl.

4. Crynodeb o Strategaeth Archwilio 2007-08.

4.1 Dywedodd Mr Golding y byddai Grant Thornton yn ymgymryd â'r archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ann-Marie Harkin o Swyddfa Archwilio Cymru fyddai'r swyddog cyswllt. Roedd wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd a Rheolwr Ariannol y Comisiwn i nodi'r prif risgiau, sef:

- ailddatgan cyfrifon 2007-08 i gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Disgwyliwyd y byddai'n rhaid ailddatgan cyfrifon 2007-08 erbyn mis Hydref 2008 fan bellaf a mis Rhagfyr fyddai'r terfyn amser i archwilio'r cyfrifon a ailddatganwyd. Fodd bynnag, dywedodd Mr Golding oherwydd maint bychan y Comisiwn, disgwylir na fyddai ailddatgan y cyfrifon yn anodd o gymharu â chyrff cyhoeddus eraill ac felly disgwylir cwblhau'r broses erbyn canol neu ddiwedd yr haf. Byddai amserlen yn cael ei llunio ar gyfer yr ymarfer ailddatgan ar ôl cyhoeddi ISA 260;
- defnyddio meddalwedd cyfrifo Sage trwy gydol y flwyddyn i leihau camgymeriadau yn y llyfr arian;
- yr anawsterau a gafwyd yn ystod blynyddoedd cynt wrth dderbyn costau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer system TG Merlin;
- defnyddio meddalwedd cyfrifo Sage wrth gau ar ddiwedd y flwyddyn 2007-08.

4.2 Fel rhan o'r Arolwg Blynyddol a'r Gwaith Sicrhau Ychwanegol ar gyfer 2007-08, ar gais Llywodraeth Cynulliad Cymru byddai'r archwiliad yn cynnwys arolwg â thema. Byddai arolwg 2007-08 yn canolbwyntio ar y defnydd o staff o

asiantaethau a chontractwyr ar draws y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad. Byddai hyn ar ben y gwaith a wnaed o ran cydymffurfio â'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol. Yn ôl ISA 260, nid oedd newidiadau i'r trefniadau o ran adrodd am yr archwiliad. Bu codiad bychan yn y ffi archwilio yn unol â chwyddiant; fodd bynnag, awgrymodd Mr Golding y byddai'n fwy priodol trafod y ffi ar ôl cyhoeddi'r Llythyr Rheoli.

4.3 Roedd y Pwyllgor o'r farn efallai y byddai achos i ystyried cymesuredd wrth ystyried y ffi archwilio yn enwedig gan nad oedd yr arolwg thema yn berthnasol i'r Comisiwn ac na fyddai'r canlyniad o ddiddordeb. Tynnwyd sylw at y ffaith fod codiad o 3.7% am waith Sicrwydd Ychwanegol. Dywedodd Mr Golding mai 2.7% y dylai'r ffigur fod ac felly camgymeriad oedd y ffigur yn y ddogfen strategaeth ac fe'i newidir i adlewyrchu'r cynnydd gwirioneddol, sef 2.7%. Tynnodd Ann-Marie Harkin sylw at y ffaith bod mwyafrif y gwaith Sicrwydd Ychwanegol yn cynnwys cydymffurfio â'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol yn hytrach na'r arolwg thema ac roedd o bwys i'r Swyddog Cyfrifyddu. Tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith fod y ffi archwilio yn fwy ar gyfartaledd na rhai cyrff cyhoeddus mwy a gofynnwyd a oedd modd nodi'r costau a gynhwysid. Dywedodd Mr Golding nad oedd unrhyw berthynas llinellol rhwng maint corff a'r ffi archwilio a dywedodd y byddai angen gweld a oedd unrhyw feysydd problematig wedi codi yn ystod yr archwiliad cyn y gellid priodoli costau. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru i godi'r mater o gymesuredd a ffioedd archwilio.

5. Cwynion (eitem sefydlog)

5.1 Ni chafwyd unrhyw gwynion ers y cyfarfod diwethaf.

6. Unrhyw Fater Arall

6.1 Nid oedd unrhyw fater arall.